Mynediad

3.1 Polisi Mynediad

Rhydd yr ysgol fynediad i ddisgyblion newydd unwaith y flwyddyn yn unig, ym mis Medi, ac yn unol â pholisi Pwyllgor Addysg Gwynedd h.y.

i. rhan amser o fis Medi yn dilyn ei benblwydd ef/hi yn dair oed
ii. llawn amser o fis Medi yn dilyn ei benblwydd ef/hi yn bedair oed.

Yn ystod tymor yr haf, gwahoddir rhieni disgyblion newydd i ddod a'u plant i'r ysgol i dreulio prynhawn yn y dosbarth derbyn er mwyn annog eu plant i ymgartrefu'n gyflym ar ddechrau eu gyrfa ysgol. Yn ystod y prynhawniau hynny, caiff rhieni wahoddiad i gwrdd â'r Pennaeth eto a chwrdd â rhieni newydd eraill er mwyn trafod y trefniadau ymarferol ar gyfer dechrau yn yr ysgol ac unrhyw wybodaeth bwysig arall er mwyn cynorthwyo'r plant i ymgartrefu yn yr ysgol.

Caiff rhieni wahoddiad i fynychu Noson Agored yn ystod tymor yr Hydref a thymor yr haf i drafod cynnydd eu plant a gweld peth o waith y tymor.

Os oes gan rieni unrhyw ymholiad neu bryder difrifol ynghylch eu plentyn neu yr ysgol, ar unrhyw adeg, dylent, yn y lle cyntaf, gysylltu â'r Pennaeth i drafod y mater , cyn gynted a bo modd.

Er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn addysg "gyflawn" dda, byddai'r Pennaeth a holl aelodau'r staff yn falch o weld rhieni i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'u plant neu â bywyd yr ysgol. Y ffordd orau o wneud hynny, os oes modd, yw trwy drefnu amser trwy gysylltu ag Ysgrifenyddes yr Ysgol.

Derbynnir plant sy'n Gatholig ac nad ydynt yn Gatholig yn yr ysgol.

3.2 Dalgylch

Plwyf Eglwys Gatholig Santes Helen a Dewi Sant yw dalgylch yr ysgol.

3.3 Meini Prawf ar gyfer Mynediad

Pennir pob mynediad gan Fwrdd y Llywodraethwyr Rhoddodd y Bwrdd yr hawl i'r Pennaeth roi mynediad i blant sy'n Gatholigion ond mae'r Bwrdd yn cadw'r hawl i benderfynu ar blant nad ydynt yn Gatholigion.

3.4 Apeliadau yn erbyn Penderfyniad y Llywodraethwyr

Yn unol â Deddf Addysg 1980, gall rhiant apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr. Dylid cyflwyno apeliadau o'r fath i Ysgrifennydd y Bwrdd Apeliadau

d/o Pennaeth yr Ysgol

neu d/o Y Presbytri

neu d/o Y Cyfarwyddwr Addysg